COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 5 HYDREF 2017, AM 9.30 AM

Presennol

Y Cynghorydd CA Green – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | J Gebbie | T Giffard | M Jones |
| RL Penhale-Thomas | B Sedgebeer | RMI Shaw | JC Spanswick |
| T Thomas | CA Webster | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

N Clarke

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Fiona Blick | Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Eiddo |
| Sarah Daniel | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Gail Jewell | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Andrew Jolley | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth |
| Rachel Jones | Rheolwr Caffael Corfforaethol |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |

14. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd N Clarke.

15. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Gwnaed y datganiadau o ddiddordeb canlynol:

Fe wnaeth y Cynghorydd C A Green ddatgan diddordeb personol yn eitem 6 ar yr agenda – Diweddariad Caffael, fel cyfarwyddwr cwmni sydd wedi negodi proses gaffael y Cyngor yn llwyddiannus.

Fe wnaeth y Cynghorydd M Jones ddatgan diddordeb personol yn eitem 6 ar yr agenda – Diweddariad Caffael, fel cyfarwyddwr cwmni sydd wedi negodi proses gaffael y Cyngor yn llwyddiannus.

Fe wnaeth y Cynghorydd C Webster ddatgan diddordeb personol yn eitem 8 ar yr agenda – Monitro Cyllideb 2017-18 – Rhagolygon Chwarter 1, gan fod aelod o’r teulu yn derbyn cymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

16. CYMERADWYAETH COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2017 fel cofnod gwir a chywir.

17. RHAGLEN WAITH TROSOLWG A CHRAFFU I'R DYFODOL

Cyflwynodd y Swyddog Craffu Raglen Waith Trosolwg a Chraffu i'r Dyfodol ar gyfer 2017-18 i'w chymeradwyo. Hysbysodd y Pwyllgor y byddai angen hyblygrwydd yn y Rhaglenni Gwaith i'r Dyfodol ac y caent eu hadolygu gan y Pwyllgor hwn ym mhob cyfarfod fel rhan o'i gylch gorchwyl o osod a blaenoriaethu'r Rhaglen Waith Gyffredinol i'r Dyfodol ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc.

Casgliadau

Yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor, penderfynwyd ar Raglen Waith i'r Dyfodol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu fel a ganlyn:

Bu'r Aelodau yn trafod Rhaglen Waith i'r Dyfodol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol a chytunasant ar y canlynol:

- Tynnu Rheoli Contractau allan o'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfod 15 Tachwedd oherwydd ymholiadau sy'n cael eu trin yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc a thrwy friffiau cyn y Cyngor.
- Bu'r Aelodau yn ystyried yr adborth a'r ymatebion yn dilyn eu Cyfarfod Pwyllgor blaenorol a gofynnwyd am eglurder pellach ynglŷn ag eitem Absenoldeb Salwch gyda golwg ar bwyntiau A ac E.

Bu'r Aelodau yn trafod Rhaglen Waith i'r Dyfodol Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc a chytunasant ar y canlynol:

- Gwahodd yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr ar gyfer eitem y Fargen Ddinesig.
- Argymell gweddarlledu'r eitem ar Ddementia a gwahodd cyrff allanol megis Cymdeithas Alzheimer i'r cyfarfod.
- Ychwanegu eitem ar Awtistiaeth at y Rhaglen Waith i'r Dyfodol. Aelod i gwblhau ffurflen meini prawf i ehangu ymhellach ar y cais cyn i hyn gael ei ychwanegu at y Rhaglen Waith i'r Dyfodol.

Gosododd yr Aelodau y canlynol yn nhrefn blaenoriaeth a dirprwywyd hwy i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc:

| Eitem | Pwyllgor | Dyddiad y cyfarfod |
|---|---|---|
| Adolygiad Strategol Ysgolion | 1 | 10 Ionawr 2018 |
| Cartrefi Gwag | 2 | 8 Ionawr 2018 |
| Trosglwyddo Asedau Cymunedol | 3 | 17 Ionawr 2018 |
| Safonau Ysgolion | 1 | 8 Chwefror 2018 |
| Ffyniant Economaidd Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 2 | 7 Chwefror 2018 |
| Adfywio Canol y Dref | 3 | 12 Chwefror 2018 |

18. ENWEBU AELODAU AR GYFER PANEL BWRDD Y GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cyflwynodd y Swyddog Craffu adroddiad oedd yn gofyn am enwebiad ar gyfer un aelod o'r Pwyllgor i eistedd ar Banel Trosolwg a Chraffu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

PENDERFYNWYD: Enwebu'r Cynghorydd T Giffard yn gynrychiolydd y Pwyllgor i eistedd ar Banel Trosolwg a Chraffu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

19. DIWEDDARIAD CAFFAEL

Cyflwynodd y Swyddog Craffu adroddiad a roddai ddiweddariad ar gynnydd yr amrywiol ffrydiau gwaith ar yr Adolygiad Caffael Corfforaethol ac a oedd hefyd yn tynnu sylw at y modd y sicrheir cydymffurfio â deddfwriaeth drwy'r broses gaffael.

Holai'r Pwyllgor â bwy y byddid yn ymgynghori fel rhan o adolygiad y Strategaeth Gaffael. Dywedodd y Rheolwr Caffael Corfforaethol y byddid yn ymgynghori â'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol ac y byddai hyn wedyn yn hidlo drwy'r Cyngor.

Gofynnodd y Pwyllgor pam nad oedd terfyn amser ar gyfer eDendro. Hysbysodd y Rheolwr Caffael Corfforaethol y Pwyllgor fod eDendro wedi cael ei gyflwyno yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus ac y byddai'r Awdurdod yn cydymffurfio'n llawn erbyn mis Hydref 2018. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth fod nifer o brosiectau ar raddfa fawr wedi eu caffael drwy eDendro, gan gynnwys caffael contractau cludiant ysgolion.

Gofynnodd y Pwyllgor pa fesurau diwydrwydd dyladwy sy'n cael eu cymhwyso pan fydd yr Awdurdod yn caffael contractau i sicrhau gonestrwydd ariannol cwmnïau a bod cwmnïau sy'n tendro am wasanaethau'r Cyngor yn ymddwyn mewn ffordd foesegol ac yn unol â gwerthoedd y Cyngor ei hun. Hysbysodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth y Pwyllgor y cynhelir arfarniad o onestrwydd ariannol cwmnïau bob tro gan yr Adran Gyllid er mwyn sicrhau eu bod yn ariannol ddiogel. Dywedodd y cynhelid diwydrwydd dyladwy ar gontractwyr posibl cyn i gwmnïau gael eu derbyn i'r Cytundebau Fframwaith a ddefnyddir gan yr Awdurdod. Gofynnodd y Pwyllgor pwy oedd yn gyfrifol am adolygu'r broses honno cyn i'r Awdurdod ddod i drefniant cytundebol gyda'r cwmni. Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth mai ar y Cyfarwyddwr Corfforaethol priodol a'r Arbenigwr Categori y byddai'r cyfrifoldeb hwnnw o sicrhau bod tendr yn cael ei sgorio yn gywir. Holodd y Pwyllgor pa gamau a gymerid i sicrhau gonestrwydd moesegol y cwmnïau yr oedd yr Awdurdod i ddod i drefniadau cytundebol â hwy. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth fod yr Awdurdod yn defnyddio casgliad safonol o gwestiynau, yr oedd gofyn i ddarpar gontractwyr eu hateb, ar gyfer asesu a oeddent yn foesegol a'i fod hefyd yn defnyddio contractau safonol.

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd pam nad oedd yr Awdurdod wedi ymrwymo i'r cod ymarfer moesegol drwy dalu'r cyflog byw i'w staff, sy'n mynd at graidd tegwch, ac a oedd yr Awdurdod yn mynnu bod cwmnïau yr oedd yn llunio contractau â hwy yn gwneud yr un fath. Gwnaeth Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth y sylw mai penderfyniad gwleidyddol, y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei wneud, yw talu'r cyflog byw. Dywedodd y byddai talu'r cyflog byw yn cael effaith ar bob Cyfarwyddiaeth ac ar raddfeydd cyflog cenedlaethol, oedd i fod yn destun adolygiad. Byddai talu'r cyflog byw yn golygu llawer o waith a chyllid. Dywedodd hefyd na fyddai'r Awdurdod yn gofyn i'w gontractwyr wneud yr hyn nad oedd yr Awdurdod ei hun yn ei wneud. Hysbysodd

Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol y Pwyllgor fod yr Awdurdod yn glynu wrth yr isafswm cyflog cenedlaethol ond cadarnhaodd nad oedd yr Awdurdod yn talu'r cyflog byw. Byddai angen i'r Awdurdod dorri costau er mwyn talu'r cyflog byw a byddai'n anodd i'r Awdurdod ofyn i gyflenwyr gytuno i wneud rhywbeth nad oedd yr

Awdurdod ei hun yn ei wneud. Hysbysodd y Dirprwy Arweinydd y Pwyllgor fod yr Awdurdod yn cyflawni ei holl ddyletswyddau statudol ac mai mater i'r Awdurdod yn y pen draw oedd gwirio fod ei gyflenwyr yn meddu ar yr un gwerthoedd â'r Awdurdod a'i fod ef yn dawel ei feddwl fod yr Awdurdod yn gyflogwr egwyddorol. Dywedodd y byddai talu'r cyflog byw yn bwysau cyllidol ac yr edrychid ar dalu'r cyflog byw yng nghyd-destun proses y gyllideb. Dywedodd y Cadeirydd y byddai talu'r cyflog byw yn dasg enfawr i'r Awdurdod.

Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y posibilrwydd y gallai'r Awdurdod ddefnyddio cyflenwyr nad ydynt yn caniatáu i'w gweithwyr fod yn aelodau o undebau llafur. Teimlent na ddylai'r Awdurdod ymgysylltu â chyflenwyr ond rhai oedd yn annog eu gweithwyr i fod yn aelodau undebau llafur cydnabyddedig. Mynegwyd pryder hefyd y gall cyflenwyr, nad ydynt yn caniatáu i'w gweithwyr fod yn aelodau o undebau llafur, gynnig prisiau is na'u cystadleuwyr er mwyn ennill contractau. Hysbysodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth y Pwyllgor fod yr Awdurdod yn annog ei gyflenwyr i fod yn foesegol gyfrifol; fodd bynnag, roedd angen sicrhau nad oedd cwmnïau llai yn cael eu cau allan o dendro am wasanaethau am nad oedd gweithwyr y cwmnïau hynny yn aelodau o undebau llafur. Dywedodd y câi geiriad dogfennaeth gaffael ei chryfhau er mwyn annog cyflenwyr i gydnabod undebau llafur fel rhan o safonau moesegol yr Awdurdod.

Holodd y Pwyllgor hefyd a oedd anghyfartalwch rhwng y rhywiau o ran cyflog a chyfleoedd gyrfa. Hysbysodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth y Pwyllgor fod yr Awdurdod yn gofyn i'w gontractwyr gydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb. Dywedodd hefyd fod gan yr Awdurdod raddfeydd cyflog safonol a'i fod yn cyflogi mwy o ferched na dynion. Hysbysodd y Pwyllgor fod yr Awdurdod yn recriwtio ac yn dyrchafu ar sail teilyngdod ac yn sicrhau nad oedd anghyfartalwch rhwng y rhywiau. Dywedodd y gall yr Awdurdod fynnu bod cwmnïau yn cydymffurfio'r â'r ddeddfwriaeth.

Gwnaeth y Pwyllgor y sylw ei bod yn fwy tebygol y câi merched eu cyflogi ar gontractau dim oriau ac y dylai'r Awdurdod gyfyngu ar y defnydd o gwmnïau sy'n cyflogi staff ar gontractau o'r fath a dim ond eu defnyddio mewn amgylchiadau eithriadol. Hysbysodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth y Pwyllgor fod gwasanaeth y Cofrestrydd yn cyflogi staff, sy'n cynnal priodasau ar y penwythnosau, ar gontractau dim oriau. Dywedodd na fyddai'r staff hynny yn dymuno cael eu cyflogi fel arall, ond ar gontractau dim oriau, gan fod y rhan fwyaf wedi ymddeol a bod yn well ganddynt gael hyblygrwydd ynglŷn â nifer yr oriau y maent yn gweithio. Hysbysodd y Pwyllgor nad yw'r Awdurdod yn hybu'r defnydd o gontractau dim oriau. Ystyriai'r Pwyllgor y dylai dogfennaeth gaffael ddatgan na ddylid defnyddio contractau dim oriau ond mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.

Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai'r adolygiad yn edrych ar gontractau unigol. Hysbysodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth y Pwyllgor y byddai'r adolygiad yn edrych ar Reolau Caffael Contract; y man cychwyn fyddai edrych ar ddeddfwriaeth a sicrhau bod yr Awdurdod yn derbyn y gwerth gorau. Dywedodd fod gan yr Awdurdod yn awr gofrestr contractau a'i fod wedi ailstrwythuro'r Tîm Caffael Corfforaethol. Yn y tîm mae Arbenigwyr Categori sy'n canolbwyntio ar ble mae Cyfarwyddiaethau yn gwario a hefyd yn cynnal goruchwyliaeth gorfforaethol.

Holodd y Pwyllgor a oedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant ar gaethwasiaeth fodern ac arferion moesegol a hyfforddiant mewn trais domestig. Dywedodd y Rheolwr Caffael Corfforaethol fod yr holl staff oedd yn ymwneud â chaffael yn derbyn hyfforddiant mewn caethwasiaeth fodern ac arferion moesegol. Hysbysodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth y Pwyllgor ei bod yn ofynnol i'r holl staff dderbyn hyfforddiant mewn trais domestig fel rhan o'r rhaglen hyfforddi gorfforaethol.

Gofynnodd y Pwyllgor beth oedd ystyr y term SQuID. Hysbysodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth y Pwyllgor mai set o gwestiynau cyffredin yw SQuID (Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr), a ddefnyddir i asesu a gwerthuso cyflenwyr ac sy'n gwneud y broses gontractio yn symlach i'r cyflenwyr ac i'r prynwyr.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd gan yr Awdurdod y gallu i derfynu contractau. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth y byddai angen i'r Awdurdod gael tystiolaeth fod cytundeb wedi cael ei dorri ac, os felly, y byddai gan yr Awdurdod y gallu i derfynu'r cytundeb.

Holodd y Pwyllgor a oedd yr Awdurdod yn ymrwymedig i gaffael gwasanaethau gan gwmnïau lleol ac o fewn Cymru. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth fod yr Awdurdod yn cefnogi busnesau lleol drwy gaffael yn lleol a'i fod wedi cynnwys, yn nogfennaeth contractau, yr angen i gyflenwyr recriwtio'n lleol a darparu cyfleoedd prentisiaeth. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod yr ysgol newydd sy'n cael ei hadeiladu yn Ynysawdre yn gofyn i'r contractwr gynnig 3 cyfle prentisiaeth ar y safle.

Credai'r Pwyllgor y dylai Swyddogion ystyried arfer gorau ymhlith awdurdodau lleol yn Lloegr lle mae porth caffael Due North yn cael ei ddefnyddio i gaffael contractau, yn enwedig ymhlith mentrau bychain a chanolig, gan fod GwerthwchiGymru o blaid caffael gwasanaethau gan gwmnïau mawr.

Diolchodd y Cadeirydd i'r gwahoddedigion am eu cyfraniad.

Casgliadau:

Daeth y Pwyllgor i'r casgliadau canlynol:

1. Roedd Aelodau yn bryderus nad oedd yr Awdurdod wedi ymrwymo i'r Cod Ymarfer – Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, ac argymhellent fod y Swyddogion yn cynnal adolygiad o'r holl oblygiadau pe bai'r Awdurdod yn mabwysiadu'r cod, gan gynnwys y gost i'r Awdurdod am dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, ac adrodd yn ôl i'r Aelodau am y goblygiadau o ran costau.
2. Argymhellodd yr Aelodau fod yr Awdurdod, wrth ymgymryd ag Adolygiad Busnes Caffael, yn datgan yn y manylebau caffael ei fod yn cefnogi cyflogaeth foesegol, ac nad oedd yn cefnogi'r canlynol:
    - Cyflenwyr nad ydynt yn caniatáu i'w gweithwyr ymuno ag undeb llafur.
    - Contractau dim oriau ac eithrio mewn achosion eithriadol.
    - Anghyfartalwch rhwng y rhywiau o ran cyflog a chyfleoedd gyrfa.
3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Swyddogion yn ceisio dilyn arfer gorau gydag Awdurdodau Lleol eraill o ran pecynnau meddalwedd caffael sy'n nodi diwydrwydd dyladwy ac yn cyfeirio Swyddogion at Due North. Argymhellodd yr Aelodau fod mecanwaith yn cael ei sefydlu, fel rhan o'r broses adolygu gorfforaethol, i gefnogi'r economi leol wrth gaffael contractau a sicrhau bod y contract yn effeithlon ac yn addas i'r diben ac nad yw'r Awdurdod yn unig yn llofnodi contractau gyda'r cyflenwyr hynny sy'n cynnig y pris rhataf.

Gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth bellach ganlynol gan y Swyddogion:

- Pa ganran o'r contractau a ddyfernir sy'n cael eu cynnig i fusnesau lleol a busnesau sy'n seiliedig yng Nghymru?

- Sawl Awdurdod Lleol yng Nghymru sydd wedi ymrwymo i'r Cod Ymarfer – Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, ac o'r rheiny sydd wedi ymrwymo faint sy'n talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn wirfoddol fel yr eglurwyd gan y Sefydliad Cyflog Byw ac sydd wedi ei gyfrifo ar sail costau byw gwirioneddol?
- Pa Drosolwg Strategol sy'n cael ei chynnal ar y contractau mawr a ddyfernir er mwyn sicrhau diwydrwydd dyladwy megis materion enw da cyflenwyr, eu perfformiad yn y gorffennol ac ymgysylltu ac ymgynghori ag Awdurdodau Lleol eraill?

20. SYMLEIDDIO'R YSTAD: DEFNYDDIO ADNODDAU'N DDOETHACH

Cyflwynodd y Swyddog Craffu adroddiad ar symleiddio ystâd y Cyngor sy'n brosiect allweddol yn ymwneud â'r flaenoriaeth gorfforaethol, Defnydd Doethach o Adnoddau.

Hysbysodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y Pwyllgor mai bwriad yr adroddiad yw dangos maint portffolio rheoli asedau'r Cyngor, y cyfeiriad teithio strategol, y cynnydd a wnaed o ran Trosglwyddo Asedau Cymunedol a phrosiectau mawr eraill.

Holodd y Pwyllgor pa gynnydd a wnaed mewn caffael eiddo ar gyfer buddsoddi. Dywedodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Eiddo fod gan y Cyngor gymysgedd detholiadol o eiddo masnachol o fewn ei bortffolio. Nid yw'r rhan fwyaf o'r safleoedd hyn yn cael eu cadw i ddibenion buddsoddi yn unig. Ceir enghreifftiau o'r eiddo yma yn y Ganolfan Arloesi yn y Parc Gwyddoniaeth i ddarparu lleoedd i fusnesau sy'n cychwyn. Mae eiddo hefyd wedi ei gaffael yn Waterton Cross, yn benodol fel buddsoddiad ac i gynhyrchu incwm drwy osod y safle. Dywedodd hi fod gan y gwasanaeth gyllideb o £0.5 miliwn i gaffael eiddo ychwanegol ar gyfer buddsoddi ond nad oedd dim addas wedi cael ei ganfod o fewn y Cyngor Bwrdeistref. Roedd cynnig wedi cael ei wneud am arian cyfalaf ychwanegol, yn dilyn cyngor gan Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifyddiaeth Cyhoeddus (CIPFA) ac Alder King, ond aflwyddiannus oedd y cynnig ar y pryd. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau pe câi mwy o arian ei roi ar gael i fuddsoddi mewn eiddo masnachol fod yna bosibilrwydd y gallai'r Cyngor gynhyrchu mwy o incwm. Hysbysodd y Pwyllgor hefyd fod llawer o awdurdodau lleol wedi dilyn llwybrau gwahanol o fuddsoddi mewn datblygiadau masnachol er mwyn cynhyrchu ffrydiau incwm newydd. Fodd bynnag, roedd yn amlwg hefyd bod rhai peryglon yn gysylltiedig â'r dull hwn.

Holodd y Pwyllgor beth oedd y rheswm pam yr oedd 126 o adeiladau, nad oeddent yn cael eu defnyddio, yn cael eu cadw. Hysbysodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Eiddo y Pwyllgor fod yr eiddo yn amrywio o unedau cychwynnol i adeiladau yn y Ganolfan Arloesi a'r Parc Gwyddoniaeth a garejys bychain. Dywedodd fod rhai adeiladau anweithredol yn rhai masnachol; mae gan rai adeiladau swyddogaeth gymdeithasol-economaidd tra mae eiddo arall ond wedi cael ei etifeddu.

Gwnaeth y Pwyllgor y sylw bod angen clirio llawer o safleoedd mewn cymunedau yn y cymoedd, oedd yn cael eu hystyried yn ddiangen, gan nad oedd y safleoedd yn fasnachol hyfyw a holai a ellid mabwysiadu dull cymunedol i benderfynu ynghylch dyfodol y safle. Dywedodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Eiddo fod y dull hwn wedi cael ei ddilyn eisoes pan oedd yn briodol, er enghraifft, yng Nghwm Ogwr; fodd bynnag, canfuwyd bod hyn yn aml wedi bod yn ormod o dasg i'r gymuned ac felly nad oedd modd trosglwyddo'r ased i'r gymuned a bod y safle wedi cael ei werthu ar y farchnad agored. Hysbysodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Eiddo y Pwyllgor fod y datrysiadau mwyaf llwyddiannus wedi digwydd pan oedd y safleoedd wedi cael eu trosglwyddo i Gynghorau Tref a Chymuned.

Gwnaeth y Pwyllgor y sylw fod yna nifer o safleoedd oedd wedi eu gadael mewn cyflwr gwael ar ôl i'r adeilad gael ei ddymchwel ond y safle heb gael ei werthu. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau fod Tasglu'r Cymoedd, dan arweiniad Llywodraeth Cymru, wedi ystyried safleoedd yr oedd malltod wedi effeithio arnynt, gan fod hwn yn fater oedd yn effeithio ar lawer o Dde Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd yn y cymoedd lle nad oedd gwerth tir yn uchel bob amser, a bod yna achos cryf dros ymyriad gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i wella ymddangosiad esthetig y safleoedd ar ôl i adeiladau gael eu dymchwel.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at y gyllideb o £890 mil oedd ar gael ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol a holai a fyddai galwadau yn cystadlu am gyllid ar ôl i'r gyllideb gael ei defnyddio pe câi'r holl geisiadau am drosglwyddo asedau eu cymeradwyo. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y cyllid yn benodol ar gyfer gwella parciau a phafiliynau fel rhan o broses CAT, a bod unrhyw gyllid yn y dyfodol yn ddibynnol ar lwyddiant gwario'r gyllideb bresennol o £890 mil. Gwnaeth y Dirprwy Arweinydd y sylw y byddai'n rhaid tynnu'r cyllid o £890 mil i lawr yn gyntaf cyn y gellid dyrannu cyllideb bellach i drosglwyddo asedau cymunedol.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd yna gyfleoedd i gadw treftadaeth safleoedd, megis y gwaith cerrig o ysgolion oedd i gael eu dymchwel. Dywedodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Eiddo pe bai gan gymunedau ddiddordeb mewn cadw treftadaeth safleoedd oedd i gael eu dymchwel, y byddai gan Swyddogion ddiddordeb mewn edrych ar y cynigion hynny. Hysbysodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y Pwyllgor fod cynsail wedi cael ei osod gan fod placiau wedi cael eu cadw'n lleol o hen Ganolfan y Berwyn. Gwnaeth y Dirprwy Arweinydd y sylw na allai ef weld problemau gyda chadw treftadaeth safleoedd mewn cymunedau.

Holodd y Pwyllgor a oedd ymgynghoriad yn digwydd gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r trydydd sector ynghylch safleoedd yr oedd y Cyngor yn bwriadu eu dymchwel. Cadarnhaodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Eiddo fod Swyddogion yn gweithio'n agos gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ynghylch gwerthu safleoedd ysgolion a safleoedd eraill er mwyn ystyried sut y gellid o bosibl eu hailddatblygu. Dywedodd fod rhai safleoedd yn cael eu gwerthu ar bris y farchnad tra roedd safleoedd eraill yn cael eu gwerthu am bris enwol.

Holai'r Pwyllgor a ellid sicrhau cyfleoedd prentisiaeth fel rhan o ailddatblygu safleoedd a phrosiectau. Hysbysodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y Pwyllgor fod yna bosibiliadau ar gyfer cyfleoedd prentisiaeth ond bod yna bwysau i gynyddu derbyniadau cyfalaf i'r eithaf wrth werthu tir. Dywedodd y gellid edrych ar y posibilrwydd o gynhyrchu cyfleoedd prentisiaeth fel rhan o waith caffael prosiectau lle bo'n briodol. Hysbysodd y Pwyllgor fod y Cyngor eisoes yn mynnu bod prentisiaethau'n cael eu sicrhau fel rhan o raglen adeiladu moderneiddio ysgolion.

Diolchodd y Cadeirydd i'r gwahoddedigion am eu cyfraniad.

<u>Casgliadau:</u>

Daeth y Pwyllgor i'r casgliadau canlynol:

1. Argymhellodd yr aelodau fod yr Awdurdod yn ymgysylltu â'r gymuned leol, gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned, cyn dymchwel adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor, a chaniatáu cyfle i gadw treftadaeth y Gymuned. Argymhellodd yr Aelodau lunio cynllun ysgrifenedig ymhell ymlaen llaw gyda therfynau amser eglur ar gyfer y cyfnod ymgynghori fel bod yr holl ymgyngoreion yn glir ar yr amseroedd sy'n gysylltiedig â'r broses.

2. Roedd Aelodau yn bryderus fod yna lawer o dir yn y Fwrdeistref oedd wedi cael ei adael mewn cyflwr gweladwy gwael ar ôl i adeilad gael ei ddymchwel ond nid ei werthu. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi dymuniad y Gyfarwyddiaeth i Lywodraeth Cymru ymyrryd i gynorthwyo i wneud cymunedau yn fwy dymunol eu hymddangosiad pan fydd adeiladau wedi cael eu dymchwel.
3. Argymhellodd yr Aelodau edrych i mewn i'r cyfle o gynhyrchu cyfleoedd prentisiaeth yn ystod y broses gaffael. Argymhellai'r Aelodau y gellid gwneud hyn yn rhan o'r contract pan fyddai cwmnïau yn cynnig am adeiladau/tir.

21. ADRODDIADAU GWYBODAETH I'W NODI

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad i'w nodi ar sefyllfa ariannol y Cyngor fel ar 30 Mehefin 2017. Disgwylid y byddai gan y Cyngor danwariant net o £1.209 miliwn yn cynnwys gorwariant net ar Gyfarwyddiaethau o £292 mil a £1.501 miliwn net o danwariant ar gyllidebau corfforaethol fel ar 30 Mehefin 2017.

Mynegodd y Pwyllgor ei bryder ynglŷn â'r gorwariant disgwyliedig yng Nghyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles a'r rheswm pam na chafodd yr arbedion yn y Gyfarwyddiaeth honno eu cyflawni. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am eglurder ynghylch y gwariant ar gyllideb y Gwasanaethau Eraill i Bobl Hŷn.

22. MATERION BRYS

Nid oedd dim materion brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.56 am